
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Absenoldeb Mabwysiadu/ Geni Plentyn drwy Drefniant Benthyg Croth



DATBLYGIAD SEFYDLIADOL

Cyhoeddwyd: Awst 2024

# Rheoli Fersiwn

Bwriedir y ddogfen hon ar gyfer:

☐ Staff y Cyngor yn unig ☐ Staff seiliedig mewn ysgolion yn unig ☒ Staff y Cyngor a seiliedig mewn ysgolion

| Fersiwn | Newidiadau Allweddol | Cymeradwywyd gan |
|---|---|---|
| Mawrth 2020 | Ailfformatio yn unig | Tîm Rheoli Adrannol |
| Hydref 2022 | Adolygiad wedi'i drefnu; moderneiddio/diweddaru iaith/manylion a dileu unrhyw ddyblygu. | Tîm Rheoli Adrannol |
| Mawrth 2023 | Diweddaru gwybodaeth ar bensiynau | Tîm Rheoli Adrannol |
| Awst 2024 | Ychwanegwyd gwybodaeth amddiffyn rhag diswyddo | Tîm Rheoli Adrannol |

Gellir adolygu a diwygio'r ddogfen hon ar unrhyw amser a heb ymgynghoriad mewn ymateb i ofynion cyfreithiol neu mewn ymateb i ofyniad sefydliadol a lle nad yw newidiadau yn adlewyrchu newid sylfaenol neu'n effeithio ar ysbryd neu fwriad y ddogfen.

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ....3
2. Cwmpas ....3
3. Cyfrifoldebau Cyflogeion ....4
4. Absenoldeb sydd ar gael cyn i'r Absenoldeb Mabwysiadu/Trefniant Benthyg Croth ddechrau ....5
5. Hawl i Absenoldeb Mabwysiadu/Trefniant Benthyg Croth ....6
6. Rhannu Absenoldeb Rhiant ....7
7. Hawl i Dâl Mabwysiadu/Cael Plentyn drwy Drefniant Benthyg Croth ....7
8. Yr Hawl i Ddychwelyd i'r Gwaith ....9
9. Dyddiau Cadw mewn Cysylltiad ....10
10. Gwybodaeth Gyffredinol ....10
11. Cydbwysedd Gwaith Bywyd ....14
12. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ....15

Ffurflen AL1: Cais am Absenoldeb Mabwysiadu/Trefniant Geni Babi drwy Fenthyg Croth 16

Ffurflen AL2: Cais i ddychwelyd i'r gwaith ....17

Ffurflen AL3: Awdurdodiad am Dalu am Dyddiau Cadw mewn Cysylltiad ....18

# 1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun o absenoldeb mabwysiadu/geni plentyn drwy drefniant benthyg croth *(surrogacy)* pan gaiff plentyn ei leoli o'r newydd* ar gyfer mabwysiadu o fewn y Deyrnas Unedig neu lle mae darpar rieni yn ymrwymo i drefniant benthyg croth. Mae darpariaethau tebyg lle caiff plentyn ei fabwysiadu o dramor, er fod gweithrediad manwl y cynllun ychydig yn wahanol am resymau ymarferol. Cysylltwch â Datblygu Sefydliadol i gael mwy o wybodaeth. Ar gyfer y cyflogeion hynny sy'n disgwyl rhoi genedigaeth i blentyn, gweler y Polisi Absenoldeb Mamolaeth

* Dylid nodi nad yw absenoldeb a thâl mamolaeth ar gael lle na chaiff plentyn ei baru o'r newydd ar gyfer mabwysiadu, er enghraifft lle mae llys-riant yn mabwysiadu plentyn/plant partner neu gan ofalwyr maeth presennol.

# 2. Cwmpas

Mae'r cynllun yn weithredol ar gyfer cyflogeion sy'n bodlonii'r amodau cymhwysol, faint bynnag o oriau yr wythnos a weithiant.

Cyflogeion unigol neu un aelod o gwpl sy'n mabwysiadu plentyn/plant neu yn ymrwymo i drefniant benthyg croth.

Lle mae cwpl ar y cyd yn mabwysiadu neu yn ymrwymo i drefniant benthyg croth, mae'n rhaid i'r cwpl benderfynu pa bartner fydd yn cymryd yr absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth. Gall y partner arall fod yn gymwys am absenoldeb cymorth tadolaeth/mamolaeth, yn amodol ar gyflawni'r meini prawf perthnasol. Mae manylion pellach ar gael yn y Polisi Absenoldeb Cymorth Tadolaeth/Mamolaeth.

Mae'n rhaid i gyflogai fod wedi gweithio'n barhaus i'r Cyngor am 26 wythnos erbyn diwedd yr wythnos y cânt eu hysbysu eu bod yn cael eu paru gyda phlentyn ar gyfer mabwysiadu, ac wedi hysbysu'r asiantaeth fabwysiadu y cytunant y dylai'r plentyn gael ei leoli gyda nhw a dyddiad y lleoliad. Mewn achosion o drefniadau benthyg croth, mae'n rhaid i gyflogai fod wedi gweithio'n barhaus i'r Cyngor am 26 wythnos erbyn diwedd y 15fed wythnos cyn dyddiad disgwyliedig geni'r plentyn.

Mae'r polisi hwn yn anelu i roi canllawiau cyn symled ag sy'n bosibl am hawliau a buddion mabwysiadu/trefniant benthyg croth sydd ar gael i gyflogeion a'r amodau sydd arnynt. Dylai cyflogeion ddarllen yr wybodaeth ddilynol yn ofalus, ac yna lenwi a dychwelyd y ffurflen gais am absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth. Ar ôl darllen y polisi yma os yw cyflogai angen mwy o gyngor neu arweiniad, dylent gysylltu â'u Partner Busnes Adnoddau Dynol.

# 3. Cyfrifoldebau Cyflogeion

Mae'n ofynnol i gyflogeion hysbysu eu rheolwr am eu bwriad i gymryd **absenoldeb mabwysiadu** o fewn 7 diwrnod o gael eu hysbysu gan eu hasiantaeth mabwysiadu eu bod wedi cael eu paru gyda phlentyn ar gyfer mabwysiadu a dim hwyrach na 28 diwrnod cyn y mae'r absenoldeb i fod i ddechrau (neu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol).

Mae'n rhaid i gyflogeion sydd wedi ymrwymo i **drefniant benthyg croth** hysbysu eu rheolwr am eu bwriad i gymryd absenoldeb trefniant benthyg croth o leiaf 8 wythnos cyn y dyddiad y dymunant gymryd yr absenoldeb. Bydd angen i chi roi tystiolaeth ddogfennol i ddangos fod trefniant benthyg croth yn ei le. Dylai hyn fod yn:

- Datganiad ysgrifenedig ('datganiad statudol') i gadarnhau bod, yn y 6 mis yn dilyn genedigaeth y babi:
    - y cyflogai yn bwriadu gwneud cais am orchymyn rhiant;
    - y cyflogai yn disgwyl i'r gorchymyn gael ei ganiatáu (e.e. oherwydd nad oes ganddynt unrhyw euogfarnau yn ymwneud â phlant, a'r fam neu'r tad gwaed yn cytuno i'r trefniant);
- copi o'r MATB1 cyn geni'r babi; a
- chopi o C51 'Gorchymyn Rhiant' cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl geni'r babi a dim mwy na chwe mis ar ôl dechrau absenoldeb.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adhawlio unrhyw daliad a wnaed, ac i gael iawn am absenoldeb a gymerwyd, os yw'r cyflogai yn methu rhoi copi o'r 'Gorchymyn Rhiant' o fewn chwe mis o ddechrau absenoldeb a thâl.

Gallai cam-drin y polisi hwn arwain at weithredu priodol gan gydymffurfio gyda'r Cod Disgyblaeth.

Dylai ceisiadau am absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth gael eu gwneud drwy lenwi'r ffurflen gais (AL1) yn y canllawiau hyn a'i dychwelyd i Datblygu Sefydliadol o fewn yr amserlen a nodir uchod. Ar y ffurflen bydd angen i'r cyflogai nodi:

- Mai nhw yw mabwysiadwr/rhiant arfaethedig y plentyn a'u bod yn bwriadu cymryd absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth.
- Os yw'r aelod yn gwpl, mai dim ond un sy'n cymryd absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth.
- Y dyddiad y disgwylir i'r plentyn gael ei leoli ar gyfer mabwysiadu neu ei eni yn achos trefniant benthyg croth.
- Y dyddiad y maent eisiau i'w habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth ddechrau.
- Pryd y bwriadant ddychwelyd i'r gwaith ar ôl eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth, os wrth gwrs y bwriadant wneud hynny.
- Os yn gymwys am dâl galwedigaethol mabwysiadu/trefniant benthyg croth, yr opsiwn talu a ddewisant ar gyfer eu 12 wythnos ar hanner tâl.
- Eu bod wedi atodi tystiolaeth ddogfennol (gweler uchod) eu bod yn gymwys am absenoldeb a thâl statudol mabwysiadu/trefniant benthyg croth. Ar gyfer mabwysiadu dylai'r dystysgrif paru gynnwys y dilynol:

    - Enw a chyfeiriad yr asiantaeth mabwysiadu.
    - Enw a chyfeiriad y mabwysiadwyr.

  - Y dyddiad y disgwylir i'r plentyn gael ei leoli ar gyfer mabwysiadu.
  - Y dyddiad y cafodd y mabwysiadwyr eu hysbysu iddynt gael eu paru gyda'r plentyn.

- O fewn 28 diwrnod o hysbysiad dechreuol cyflogai bydd y Cyngor yn ysgrifennu atynt yn dweud y dyddiad y disgwylir iddynt ddychwelyd o absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth. Bydd y dyddiad yn seiliedig ar y dybiaeth y byddant yn cymryd eu hawl llawn i absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth o 52 wythnos o'r dyddiad y mae'r absenoldeb i fod i ddechrau, os nad ydynt wedi nodi nad ydynt yn dymuno cymryd yr hawl llawn i absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth. Pe dymunent ddychwelyd yn gynharach na'r dyddiad a gytunwyd ac wedi rhoi hysbysiad mewn ysgrifen, dylent gydymffurfio gyda'r cyfnod hysbysu perthnasol fel y manylir yn yr adran 'Gweithredu'r hawl i ddychwelyd i'r gwaith' a llenwi ffurflen AL2.

Dylid nodi na all y Cyngor brosesu cais am absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth nes bydd y cyflogai yn rhoi eu ffurflen gais wedi ei llenwi a dogfennau priodol i Datblygu Sefydliadol. Gall cyflogai ddioddef colled neu oedi mewn talu unrhyw fudd-daliadau os nad ydynt yn cyflawni'r gofynion hysbysiad.

# 4. Absenoldeb sydd ar gael cyn i'r Absenoldeb Mabwysiadu/Trefniant Benthyg Croth ddechrau

Mae'r absenoldeb dilynol ar gael i gyflogeion cyn i unrhyw absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth ddechrau:

| | | |
|---|---|---|
| Amser i ffwrdd (ar dâl) i fynychu apwyntiadau mabwysiadu/trefniant benthyg croth (tebyg i gysylltiad gyda'r plentyn neu gwrdd gyda gweithiwr cymdeithasol neu ofalwr presennol y plentyn). | **Cymhwyster**<br>Asiantaeth mabwysiadu yn hysbysu'r cyflogai y caiff plentyn ei leoli gyda nhw ar gyfer mabwysiadu.<br><br>**Hawl**<br>Hyd at 6½ awr ar hyd at bump achlysur. | Os yw cwpl yn mabwysiadu ar y cyd, dim ond un ohonynt sydd â hawl i gymryd amser ar dâl i ffwrdd, gall y person arall gymryd amser i ffwrdd heb dâl (gweler isod. |
| Amser i ffwrdd (heb dâl) i fynychu apwyntiadau mabwysiadu/trefniant benthyg croth (fel uchod). | **Cymhwyster**<br>Os yn mabwysiadu ar y cyd, y cyflogai na ddewisodd gymryd amser i ffwrdd i gymryd amser ar dâl i fynychu.<br><br>**Hawl**<br>Hyd at 6½ awr ar hyd at ddau achlysur. | |

Dylai rheolwyr sicrhau eu bod yn cofnodi'r absenoldeb hwn yn gywir a chyflwyno ffurflen diwygiad sylfaenol i Cyflogres os yw'r amser i ffwrdd heb dâl.

# 5. Hawl i Absenoldeb Mabwysiadu/Trefniant Benthyg Croth

O'r dyddiad perthnasol (gweler isod), bydd gan gyflogai hawl i 26 wythnos o absenoldeb cyffredin mamolaeth/trefniant benthyg croth ynghyd â 26 wythnos bellach o absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth. Bydd yr absenoldeb ychwanegol yn dechrau ar unwaith yn dilyn absenoldeb cyffredin mabwysiadu/trefniant benthyg croth. Fodd bynnag, os daw absenoldeb cyffredin cyflogai i ben yn gynnar yna byddent yn colli eu hawl i absenoldeb ychwanegol.

Dim ond un cyfnod o absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth a roddir, faint bynnag o blant a gaiff eu lleoli dan yr un trefniant. Os caiff y lleoliad ei oedi am ba bynnag reswm a bod cyflogai eisoes wedi dechrau ar ei absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth, yna ni fedrant atal yr absenoldeb a'i ddechrau eto yn ddiweddarach.

Os caiff y cyflogai ei hysbysu ar ôl dechrau cyfnod absenoldeb na chaiff y plentyn ei leoli, neu ar ôl i'r plentyn, gael ei leoli, bod y lleoliad i ddod i ben, ni fydd gan y cyflogai hawl i gyfnod llawn absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth. Yn y sefyllfa hon bydd absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth fel arfer yn dod i ben 8 wythnos ar ôl diwedd yr wythnos pan ddigwyddodd y tarfu, neu ar ddiwedd y cyfnod absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth pa bynnag sydd gyntaf. Ni chaiff yr absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth ei ymestyn os yw'r tarfu yn digwydd gyda llai na 8 wythnos i fynd. Yn yr amgylchiadau hyn mae'n rhaid i'r cyflogai sicrhau eu bod yn hysbysu Datblygu Sefydliadol ar unwaith pan fydd y tarfu yn digwydd fel y bydd y Cyngor yn cael hysbysiad llawn o 8 wythnos i wneud trefniadau ar gyfer iddynt ddychwelyd yn gynnar.

Gall cyflogai ddewis dechrau ei absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth ar:

- Dyddiad lleoliad/geni y plentyn
- Dyddiad a benderfynir ymlaen llaw, dim mwy na 14 diwrnod cyn y dyddiad y disgwylir i'r plentyn gael ei leoli.
- Y dyddiad y caiff y plentyn ei eni neu'r diwrnod wedyn (rhieni mewn trefniadau benthyg croth).

Gall absenoldeb ddechrau ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos. Mae'r absenoldeb yn dechrau ar y diwrnod mae'r cyflogai yn dechrau eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth os nad ydynt wedi gweithio am unrhyw ran o'r dydd ac os felly bydd yn dechrau ar y diwrnod nesaf.

# 6. Rhannu Absenoldeb Rhiant

Mae Rhannu Absenoldeb Rhiant yn galluogi cyflogeion gyda chyfrifoldebau rhiant i rannu absenoldeb pe dymunent wneud hynny, cyn belled nad yw'r absenoldeb cyfun yn fwy na chyfanswm o 52 wythnos (llai unrhyw absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth a gymerwyd eisoes).

Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer rhieni sy'n cael plentyn drwy drefniant benthyg croth dan y ddeddfwriaeth hon; fodd bynnag, mae'r cynllun yn rhoi'r un hawliau i rieni sy'n cael plentyn drwy drefniant benthyg croth ag sydd gan rieni mabwysiadu. Mae mwy o fanylion ar gael yn y Canllawiau Rhannu Absenoldeb Rhiant.

# 7. Hawl i Dâl Mabwysiadu/Cael Plentyn drwy Drefniant Benthyg Croth

Bydd hawl neilltuol cyflogai i dâl mabwysiadu/cael plentyn drwy drefniant benthyg croth yn dibynnu ar hyd eu Gwasanaeth Llywodraeth Leol parhaus. Mae dau gategori yn y cynllun:

**Categori 1:** Taliad ar gyfer cyflogeion sydd wedi cwblhau llai nag un flwyddyn o Wasanaeth Llywodraeth Leol parhaus yn arwain at yr wythnos y cânt eu hysbysu eu bod wedi eu paru gyda phlentyn ar gyfer mabwysiadu ac wedi hysbysu'r asiantaeth mabwysiadu eu bod yn cytuno y dylai'r plentyn gael ei leoli gyda nhw, neu yn achos cael plentyn drwy drefniant benthyg croth lai nag un flwyddyn o Wasanaeth Llywodraeth Leol parhaus erbyn diwedd y 15fed wythnos cyn dyddiad disgwyl geni'r plentyn:

- 39 wythnos o Dâl Mabwysiadu/Cael Plentyn drwy Drefniant Benthyg Croth (SA/SP) ynghyd â 13 wythnos o absenoldeb heb dâl.
- Dim Tâl Galwedigaethol Mabwysiadu/Cael Plentyn drwy Drefniant Benthyg Croth.

Caiff SA/SP ei dalu p'un ai yw'r cyflogai yn bwriadu dychwelyd i'r gwaith ai peidio. Bydd y Cyngor yn talu'r lwfans hwn am hyd at 39 wythnos. Os nad yw cyflogai yn gymwys am SA/SP gallant fod yn gymwys am fudd-daliadau eraill a gaiff eu talu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac nid y Cyngor. Dylech hefyd gysylltu â'ch asiantaeth cymorth mabwysiadu/trefniant benthyg croth a allai gynnig cyngor ar gymorth ariannol. Unwaith y sefydlwyd hawl cyflogai i SA/SP, caiff SA/SP ei dalu am 39 wythnos (hynny yw, holl gyfnod absenoldeb cyffredin mabwysiadu/cael plentyn drwy drefniant benthyg croth) ac mae'n cynnwys 39 wythnos a gaiff eu talu ar y gyfradd wastad a ragnodwyd, a gaiff ei hadolygu'n flynyddol (mae'r gyfradd ddiweddaraf ar gael ar wefan https://www.gov.uk/adoption-pay-leave/pay), neu 90% o'ch enillion wythnosol cyfartalog, os yn is:

I fod yn gymwys am SA/SP mae'n rhaid i gyflogai:

- Bod wedi cael eu cyflogi'n barhaus gan y Cyngor am o leiaf 26 wythnos erbyn yr wythnos y cawsant eu paru gyda phlentyn, a hefyd derbyn eich tystiolaeth ddogfennol. Yn achos Absenoldeb Trefniant Benthyg Croth,

mae'n rhaid iddynt fod wedi gweithio'n barhaus i'r Cyngor am 26 wythnos erbyn diwedd y 15fed wythnos cyn dyddiad disgwyliedig geni'r plentyn.

- Bod ag enillion wythnosol cyfartalog na ddylent fod yn is na'r terfyn enillion is ar gyfer talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Caiff hyn ei asesu ar ddiwedd yr wythnos y cafwyd hysbysiad iddynt gael eu paru gyda phlentyn. Dylai cyflogeion sydd angen mwy o fanylion gysylltu â Cyflogres.
- Rhoi tystiolaeth ddogfennol i Datblygu Sefydliadol o'r mabwysiadu a hysbysu'r Cyngor am pryd i dderbyn absenoldeb statudol mamolaeth, a ddylai fod o leiaf 28 diwrnod cyn y dyddiad y bydd yr absenoldeb yn dechrau, neu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Bydd y dystiolaeth hon ar wedd 'tystysgrif paru' gan yr asiantaeth mabwysiadu fel tystiolaeth o hawl cyflogai i absenoldeb mabwysiadu statudol. (Dylai cyflogai ofyn i'w Hasiantaeth Mabwysiadu am dystysgrif paru, fydd yn cynnwys gwybodaeth ar baru a dyddiadau lleoliad).
- Mae'n rhaid i gyflogeion sydd wedi gwneud trefniant benthyg croth hysbysu eu rheolwr am eu bwriad i gymryd absenoldeb benthyg croth o leiaf 8 wythnos cyn y dyddiad y dymunant gymryd yr absenoldeb. Bydd angen iddynt roi tystiolaeth ddogfennol i ddangos fod trefniant benthyg croth yn ei le. Gallai hyn fod yn gadarnhad gan feddyg neu gopi o gytundeb cyfreithiol.

Os nad yw cyflogai yn gymwys am SA/SP, bydd Cyflogres yn rhoi ffurflen SAP1 iddynt, fydd yn esbonio'r rhesymau pam na all y Cyngor dalu SA/SP.

**Categori 2:** Taliad ar gyfer cyflogeion sydd wedi cwblhau un flwyddyn o wasanaeth parhaus yn arwain i'r wythnos pan geir hysbysiad iddynt gael eu paru gyda phlentyn ar gyfer mabwysiadu ac iddynt hysbysu'r asiantaeth fabwysiadau y cytunant i'r plentyn gael ei leoli gyda nhw, neu yn achos cyflogeion sy'n cael plentyn drwy drefniant benthyg croth sydd wedi cwblhau un flwyddyn o Wasanaeth Llywodraeth Leol parhaus erbyn diwedd y 15fed wythnos cyn dyddiad y disgwylir geni'r plentyn.

| | |
|---|---|
| Wythnosau 1 - 6 | Bydd 6 wythnos gyntaf absenoldeb cyflogai ar 9/10fed tâl wythnos. (Bydd hyn yn cynnwys SA/SP a/neu unrhyw lwfansau eraill os yn berthnasol). |
| Wythnosau 7 - 18 | Bydd y 12 wythnos nesaf o absenoldeb ar ½ tâl wythnos (ynghyd â SA/SP). Ni chaiff unrhyw ddidyniad ei wneud heblaw i'r graddau y mae'r tâl cyfun a SA/SP yn fwy na thâl llawn.<br><br>Os nad yw cyflogai yn bwriadu dychwelyd i'r gwaith, y taliadau yn ystod y cyfnod 18 wythnos yma fydd eu hawl i SA/SP yn unig.<br><br>Os nad yw cyflogai yn dychwelyd i weithio gyda'r Cyngor am gyfnod o dri mis o leiaf, byddant yn atebol i ad-dalu y taliadau mabwysiadu galwedigaethol a wnaed yn ystod y cyfnod 18 wythnos. Nid yw taliadau drwy SA/SP yn ad-daladwy. |
| Wythnos 19 - 39 | Ar gyfer y 21 wythnos arall bydd cyflogai yn derbyn yr SA/SP y mae ganddynt hawl iddo. |
| Wythnos 40 - 52 | Absenoldeb heb dâl. |

**Noder:**
Yn lle hynny, gall swm cyfwerth â 12 wythnos o hanner tâl a gaiff ei dalu ar hyn o bryd yn wythnosau 7-18 gael ei dalu ar sail arall a gytunwyd gan y ddwy ochr yn

ystod y cyfnod absenoldeb ar dâl ar gyfer mabwysiadu/trefniant benthyg croth. Mae manylion yr opsiynau yn y ffurflen gais (AL1) Dylai cyflogeion sy'n dymuno trafod yr opsiynau hyn yn fwy manwl gysylltu â Cyflogres.

## 8. Yr Hawl i Ddychwelyd i'r Gwaith

Dim ond os y dymunant ddychwelyd i'r gwaith cyn diwedd eu cyfnod absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth llawn y bydd angen i gyflogeion lenwi' Ffurflen 'Dychwelyd i'r Gwaith yn Gynnar' (AL2).

Dylai'r ffurflen gael ei llenwi cyn gynted ag sy'n bosibl ac o leiaf 8 wythnos cyn y dyddiad y cynigiant ddychwelyd. Lle mae'r hysbysiad a roddir yn llai na 8 wythnos gall y Cyngor ohirio'r dychweliad i sicrhau'r hysbysiad priodol, ond nid tu hwnt i ddiwedd y cyfnod absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth.

Os caiff absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth ei gwtogir oherwydd tarfu ar y lleoliad/trefniant, mae'n dal fod angen i roi 8 wythnos o hysbysiad o ddychwelyd yn gynnar. Os yw cyflogai yn dymuno dychwelyd ynghynt nag 8 wythnos, gallai hynny fod yn bosibl yn dibynnu ar y sefyllfa bresennol yn y gyfarwyddiaeth. Mae'n rhaid i hyn gael ei roi mewn ysgrifen a rhaid ei gytuno gan y ddwy ochr, nid yw'n hawl.

Mae gan gyflogeion hawl i ddychwelyd i'r swydd yr oeddent yn cael eu cyflogi ynddi dan eu Contract Cyflogaeth gwreiddiol, ac ar delerau ac amodau heb fod yn ddim llai ffafriol na'r rhai a fyddai ar gael iddynt pe na byddent wedi bod ar absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth. (Mae "swydd" ar gyfer y diben hwn yn golygu natur y gwaith y cawsant eu cyflogi i'w wneud a'r capasiti a'r lle y cawsant eu cyflogi gyntaf).

Lle nad yw'n ymarferol, oherwydd ad-drefnu cyffredinol neu ddileu swydd, i'r Cyngor ganiatáu i gyflogai ddychwelyd i weithio yn eu swydd wreiddiol, mae'n rhaid iddynt gael cynnig swydd wag addas lle mae un yn bodoli, yn unol â Pholisi Adleoli y Cyngor.

Os, oherwydd bod tarfu ar waith (p'un ai oherwydd gweithredu diwydiannol neu ryw reswm arall) mae'n afresymol disgwyl i gyflogai ddychwelyd ar y dyddiad a hysbyswyd, gallant yn lle hynny ddychwelyd pan fydd gwaith yn ailddechrau neu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl hynny. Bydd y rheolwr yn eu hysbysu os felly.

Os oes angen gohirio dychwelyd ar ôl diwedd eu cyfnod absenoldeb mamolaeth/trefniant benthyg croth oherwydd salwch, mae angen i'r cyflogai gyflwyno tystysgrif feddygol yn dweud na fyddant yn medru dychwelyd i'r gwaith, cyn y dyddiad a hysbyswyd am ddychwelyd cynnar neu i gyfnod absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth. Bydd y cynllun salwch yn weithredol ar gyfer unrhyw absenoldeb.

# 9. Dyddiau Cadw mewn Cysylltiad

Gall y Cyngor wneud cysylltiad rhesymol gyda chyflogeion yn ystod eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth am nifer o resymau, tebyg i drafod trefniadau ar gyfer iddynt ddychwelyd i'r gwaith. Mae gan gyflogeion hawl i fynychu gwaith yn ystod eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth, er fod yn rhaid i hyn gael ei drefnu a'i gytuno rhwng y cyflogai a'u rheolwr. Mae diwrnodau Cadw mewn Cysylltiad ar gael fel opsiwn os oes angen i gyflogai fynychu cyfarfodydd adrannol neu sesiynau gwybodaeth ac yn y blaen. Os mai dim ond am un awr mae cyflogai yn mynychu yn ystod eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth, yna bydd hyn yn cyfrif fel un diwrnod llawn Cadw mewn Cysylltiad.

Mae gan gyflogai hawl i uchafswm o 10 diwrnod Cadw mewn Cysylltiad, lle byddant yn cael tâl llawn am fod yn bresennol yn y gwaith. Mae'n rhaid i'r cyflogai lenwi ffurflen hysbysu amgaeedig Cadw mewn Cysylltiad (AL3) a chael ei llofnodi gan y rheolwr cyn cael ei dychwelyd i Datblygu Sefydliadol. Ni fydd hyn yn effeithio ar hawl y cyflogai i SA/SP.

Os caiff y 10 diwrnod Cadw mewn Cysylltiad eu defnyddio a bod y cyflogai yn dymuno mynychu gwaith, yna byddant yn colli eu hawl i SA/SP ar gyfer yr wythnos honno.

# 10. Gwybodaeth Gyffredinol

**<u>Diwygio dyddiad Absenoldeb Mabwysiadu/Trefniant Benthyg Croth</u>**

Os yw cyflogai yn nes ymlaen yn dymuno diwygio dyddiad dechrau eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth, bydd angen iddynt hysbysu eu rheolwr cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ac o leiaf 4 wythnos cyn y dymunant i'w habsenoldeb ddechrau. Bydd hyn yn sicrhau nad oes oedi wrth brosesu unrhyw dâl a buddion mabwysiadu/trefniant benthyg croth y mae ganddynt hawl iddynt a bydd yn rhoi amser i'r Gyfarwyddiaeth wneud unrhyw drefniadau staffio dros dro a all fod eu hangen i lanw dros eu habsenoldeb.

**<u>Perthynas gyda'r cynllun salwch</u>**

Ni chaiff absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth ei drin fel absenoldeb salwch ac ni roddir ystyriaeth i hynny wrth gyfrif y cyfnod hawl i absenoldeb salwch.

Caiff absenoldeb cyffredin mabwysiadu/trefniant benthyg croth cyffredin ei ystyried fel gwasanaeth parhaus ar gyfer dibenion cynlluniau salwch mamolaeth y Cydgyngor Cenedlaethol a gwyliau blynyddol. Os na all cyflogai ddychwelyd i'r gwaith ar ddiwedd cyfnod eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth oherwydd salwch, dylent ddilyn y gweithdrefnau arferol am absenoldeb salwch.

**<u>Dosbarthiadau cynenedigol</u>**

Mae gan gyflogai hawl i gael amser ar dâl i ffwrdd i fynychu gofal cynenedigol ond mae'n rhaid iddynt roi cymaint o hysbysiad i'w rheolwr ag sydd modd.

## Amser i ffwrdd heb dâl i fynd gyda'r fam feichiog i apwyntiadau cynenedigol

Er mwyn derbyn yr hawl hwn mae'n rhaid i'r cyflogai fod â "pherthynas sy'n cymhwyso" gyda'r fam feichiog neu'r plentyn yn y groth. Caiff y bobl ddilynol eu cynnwys:

- Gŵr neu bartner sifil
- Partner, yn cynnwys partneriaid yr un rhyw, sy'n byw gyda'r fam feichiog
- Tad y plentyn yn y groth
- Rhiant y plentyn yn y groth yn sgil adran 42 neu 43 Deddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg 2008 (caiff partner yr un rhyw ei drin fel rhiant yn achos atgynhyrchu â chymorth)
- Ymgeisydd posibl ar gyfer gorchymyn rhiant dan adran 54 Deddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg yng nghyswllt y plentyn yn y groth mewn achosion o drefniant benthyg croth.

Yr hawl i amser heb dâl hyd at chwe awr a hanner ar ddim mwy na dau achlysur.

## Gwyliau blynyddol

Mae gwyliau blynyddol yn parhau i gronni yn ystod absenoldeb cyffredin ac ychwanegol mabwysiadu/trefniant benthyg croth. Gall cyflogai benderfynu ychwanegu gwyliau blynyddol ar ddechrau neu ddiwedd eu gwyliau mabwysiadu/trefniant benthyg croth i ymestyn y cyfnod y maent yn absennol o'r gwaith. Cyn eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth, dylai eu hawl i wyliau blynyddol gael ei gyfrif i gynllunio pryd y cymerir y dyddiau hyn. Os yw cyflogai yn ansicr ac yn bwriadu cymryd ei absenoldeb blynyddol ar ddiwedd eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth, mae'n rhaid iddynt gael caniatâd gan eu rheolwr o leiaf 8 wythnos cyn y dyddiad y bwriadant ddychwelyd.

Dylai cyflogeion sicrhau, cyn belled ag sy'n ymarferol, y caiff eu habsenoldeb ei gymryd o fewn y flwyddyn gwyliau berthnasol. Fodd bynnag, mae gan gyflogeion hawl i gario unrhyw wyliau blynyddol sydd ganddynt ar ôl ymlaen i'r flwyddyn nesaf.

## Gwyliau banc

Bydd cyflogai yn derbyn diwrnod yn lle o absenoldeb ar dâl ar gyfer unrhyw wyliau banc/gwyliau statudol ychwanegol a ddaw yn ystod cyfnod eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth ar dâl. Dylai cyflogai drafod hyn a'i gyfrif gyda'u rheolwr gan y bydd yn amrywio yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn y maent yn absennol. Dylai hyn gael ei gwblhau **cyn** dechrau eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth i sicrhau y caiff yr addasiadau priodol eu gwneud i'w cofnod absenoldeb. Caiff unrhyw absenoldeb sydd ar ôl ei dalu os yw cyflogai yn penderfynu yn ystod eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth nad ydynt yn bwriadu dychwelyd i'r gwaith.

## Diffiniad o dâl wythnos

Y term 'tâl wythnos' ar gyfer cyflogeion nad yw eu cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer oriau gweithio arferol yn amrywio gyda faint o waith a wneir yn ystod y cyfnod yw'r swm taladwy gan y Cyngor i'r cyflogai dan y contract cyflogaeth cyfredol ar gyfer gweithio eu horiau arferol mewn wythnos. Lle nad oes oriau gwaith rheolaidd, tâl wythnos yw'r gydnabyddiaeth gyfartalog yn y cyfnod 12 wythnos cyn y dyddiad y

daeth yr wythnos gyflawn ddiwethaf i ben, ac eithrio unrhyw wythnos pan na dderbyniwyd unrhyw gydnabyddiaeth ariannol.

**Pensiwn**

- **Aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)**

Bydd cyflogeion yn y LGPS yn cael eu cyfrif pensiwn wedi ei gredydu yn ôl yr arfer yn ystod absenoldeb mamolaeth arferol. Os aiff cyflogeion ar dâl is neu ddim tâl caiff tâl 'tybiedig' ei ychwanegu at eu cyfrif pensiwn LGPS. Mae hyn yn golygu y byddant yn dal i grynhoi'r un hawl pensiwn â phe byddent wedi bod yn gweithio yn ôl yr arfer.

Os caiff enillion pensiynadwy cyflogai eu gostwng caiff eu cyfraniadau LGPS eu didynnu o'r tâl is y maent yn ei dderbyn mewn gwirionedd, gan ddefnyddio'r gyfradd cyfraniad sy'n weithredol i'r band tâl is hwnnw.

Caiff cyfrif pensiwn LGPS cyflogai hefyd ei gredydu yn yr un modd ag arfer yn ystod unrhyw absenoldeb mamolaeth ychwanegol **ar dâl.**

Os yw cyflogeion yn cymryd absenoldeb mamolaeth/trefniant benthyg croth ychwanegol, ni fyddant yn crynhoi pensiwn LGPS yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, gall cyflogeion ddewis talu cyfraniadau pensiwn ychwanegol (APC) i adbrynu pensiwn 'coll' pan fyddant yn dychwelyd i'r gwaith. Mae 'coll' yn golygu'r pensiwn y byddent wedi ei grynhoi pe byddent wedi bod yn gweithio yn unol â'r arfer yn ystod absenoldeb mamolaeth ychwanegol di-dâl.

Os yw cyflogeion yn dewis talu APC i adbrynu'r pensiwn coll o fewn 30 diwrnod o ddychwelyd i'r gwaith, caiff y gost ei rhannu gyda'r cyflogwr yn talu dau draean a'r cyflogeion yn talu'r traean arall. Os yw cyflogeion yn dewis ar ôl 30 diwrnod o ddychwelyd i'r gwaith i dalu'r APC yna ni fyddid yn rhannu'r gost.

Gall cyflogeion ganfod faint fyddai'r gost o brynu APC ar y gyfrifiannell ddilynol:
www.lgpsmember.org/help-and-support/tools-and-calculators/buy-lost-pension-calculator/

Bydd angen i gyflogeion roi eu manylion yn cynnwys eu 'Tâl Pensiynadwy Coll'. Dyma'r tâl y byddent wedi ei dderbyn yn ystod unrhyw gyfnod absenoldeb ychwanegol 'di-dâl' pe byddent wedi bod yn gweithio'n arferol. Gellir gael hyn gan y Tîm Cyflogres drwy anfon e-bost at HRPayroll@blaenau-gwent.gov.uk. Mae angen llenwi ffurflen gais o fewn y gyfrifiannell a'i dychwelyd i'r Tîm Cyflogres er mwyn talu APC am adbrynu'r pensiwn coll.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r Swyddog Pensiynau a Thechnegol yn Datblygu Sefydliadol:

E-bost: Pensions@blaenau-gwent.gov.uk
Ffôn: 01495 355170

- **Aelodau Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS)**

  Bydd cyflogeion yn y TPS yn dal i grynhoi eu cyfrif pensiwn tra'u bod yn derbyn o leiaf hanner tâl neu'n cael gwyliau teulu statudol tra maent ar absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth.

  Os gostyngir enillion pensiynadwy cyflogeion, caiff y cyfraniadau TPS a delir eu didynnu o'r union gyflog gostyngedig a gânt ond yn defnyddio'r gyfradd cyfrannu arferol a fyddai'n weithredol iddynt fel arfer.

  Os yw cyflogeion yn penderfynu cymryd toriad hirach o'r gwaith, ar ôl i'w tâl contractiol a statudol ddod i ben, cânt eu barnu fel bod 'allan o wasanaeth'. Byddant yn aelod gohiriedig o'r TPS nes byddant yn dychwelyd i wasanaeth pensiynadwy (actif). Mae hyn yn golygu na fyddai ganddynt hawl i fuddion 'marwolaeth mewn gwasanaeth' TPS ' pe byddent yn marw yn ystod y toriad.

**<u>Taliadau Honorariwm a Secondiadau</u>**

Lle mae cyflogeion yn derbyn tâl ychwanegol yng nghyswllt trefniant Honorariwm neu Secondiad, caiff hyn ei gynnwys wrth gyfrif eu tâl mabwysiadu/trefniant benthyg croth.

**<u>Cynyddrannau</u>**

Ni fydd absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth yn effeithio ar gynnydd cyflog cynyddrannol. Os gweithredir dyfarniad tâl o fewn y cyfnod caiff hynny ei ddangos yn y tâl mabwysiadu/trefniant benthyg croth.

**<u>Geni cyn pryd</u>**

Nid yw geni babi yn gynharach na'r disgwyl yn effeithio ar gymhwyster ar gyfer tâl mamolaeth. Lle caiff babi ei eni cyn pryd cyn y dyddiad yr oedd wedi cyflogeion wedi bwriadu dechrau eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth, dylent adael i'w cyfarwyddiaeth wybod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ac o fewn 28 diwrnod o wir ddyddiad yr enedigaeth. Dylid anfon tystysgrif paru/tystiolaeth benthyg croth at Datblygu Sefydliadol os na chafodd hyn ei wneud cyn y geni. Os ydynt eisoes wedi anfon y dystysgrif paru/tystiolaeth trefniant benthyg croth i Datblygu Sefydliadol yna bydd yn rhaid darparu copi o dystysgrif geni y plentyn er mwyn dechrau'r absenoldeb a thâl mabwysiadu/trefniant benthyg croth. Yn yr achos hwn bydd eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth yn dechrau y dyddiad ar ôl geni eu plentyn. Gall methiant i ddarparu tystysgrif paru/tystiolaeth benthyg croth/tystysgrif geni arwain at effeithio ar daliadau mabwysiadu/trefniant benthyg croth.
Os yw cyflogai eisoes wedi dechrau ar ei habsenoldeb mamolaeth ac y caiff y babi ei eni'n gynnar, yna byddai'r Cyngor yn parhau i dalu tâl mamolaeth yn y ffordd arferol.

**<u>Marwolaeth Babi neu Enedigaeth Farw</u>**

Mewn sefyllfa lle caiff plentyn trefniant benthyg croth ei eni'n farw (ar ôl 24 wythnos o feichiogrwydd) neu'n marw ar ôl genedigaeth, bydd gan y cyflogai hawl i'r un faint o absenoldeb a'r hawl i ddychwelyd i'r gwaith. Mae'r hawl i dâl mabwysiadu/trefniant

benthyg croth hefyd yn aros yr un fath. Gweler y Rhestr Absenoldeb Mamolaeth i gael mwy o wybodaeth ar absenoldeb profedigaeth.

**Penderfynu peidio dychwelyd**

Os nad yw cyflogeion yn dymuno dychwelyd i'r gwaith ar ôl eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth dylent hysbysu'r Cyngor eu bod yn dymuno terfynu eu cyflogaeth yn unol â'u hamodau a thelerau cyflogaeth.
Os nad ydynt yn dychwelyd i'r gwaith am gyfnod o 3 mis ar ôl eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth yna bydd angen iddynt ad-dalu'r 12 wythnos ar hanner cyflog a dalwyd iddynt yn ystod eu habsenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth.

Os yw cyflogai yn methu dychwelyd i'r gwaith yn dilyn absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth heb ddangos tystysgrif feddygol neu esboniad derbyniol am eu habsenoldeb, caiff hyn ei ystyried fel torri eu hamodau cyflogaeth.

**Amddiffyniad rhag colli swydd**
Mae Rheoliadau Absenoldeb Mamolaeth, Absenoldeb Mabwysiadu ac Absenoldeb Rhiant a Rennir (Diwygio) 2024 yn ymestyn y cyfnod o amser pan fydd gan rai gweithwyr yr hawl i gael cynnig swydd wag arall addas pe byddent fel arall yn colli eu swyddi.

Bydd gweithwyr ar absenoldeb mabwysiadu sy'n dod i ben ar neu ar ôl 6 Ebrill 2024 yn cael eu hamddiffyn drwy gydol eu habsenoldeb mabwysiadu ac am weddill y cyfnod o 18 mis ar ôl dyddiad y lleoliad.

# 11. Cydbwysedd Gwaith Bywyd

Er mwyn rhoi cefnogaeth i gyflogeion wrth gydbwyso bywyd gwaith a chartref, mae'r Cyngor yn hyrwyddo arferion gweithio hyblyg ac amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau i gynnig opsiynau i gyflogeion gyda chyfrifoldebau gofalu. Caiff rhai o'r rhain eu rhestru isod ac i gael manylion pellach ar y polisïau hyn cysylltwch â'r Adran Datblygu Sefydliadol neu edrych ar y fewnrwyd.

**Absenoldeb Rhiant**

Diben absenoldeb rhiant yw gofalu am blant y mae gan y cyflogai gyfrifoldeb rhiant amdanynt. Mae gan gyflogeion hawl i absenoldeb rhiant di-dâl os yw'r plentyn dan 18 oed. Mae'n rhaid i gyflogeion fod ag o leiaf un flwyddyn o wasanaeth parhaus gyda'r Awdurdod i fod yn gymwys am absenoldeb rhiant. I gael mwy o wybodaeth ar yr amodau absenoldeb rhiant gweler y Polisi Absenoldeb Rhiant.

**Patrymau gweithio hyblyg**

Gall cyflogai wneud cais am batrymau gweithio hyblyg tebyg i newid mewn patrwm gwaith, gweithio rhan-amser neu oriau cywasgedig, ac mae'n rhaid i'r rheolwr eu hystyried i gyd gan roi ystyriaeth i anghenion y gwasanaeth. Dylai cyflogeion a rheolwyr gyfeirio at y Polisi Gweithio Hyblyg ac mae'n rhaid gwneud pob cais am weithio hyblyg yn unol â'r polisi hwn.

**Amser i ffwrdd ar gyfer dibynyddion**

Mae hyn yn caniatáu cymryd cyfnod rhesymol o amser di-dâl o'r gwaith (fel arfer hyd at uchafswm o ddau ddiwrnod) i ddelio gydag argyfyngau annisgwyl neu sydyn. Mae'n rhaid i'r argyfwng fod yn ymwneud â rhywun sy'n un o ddibynyddion y cyflogai.

# 12. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Er mwyn rhoi cefnogaeth ychwanegol i rieni sydd â chyfrifoldebau gofalu mae'r Cyngor yn gweithredu'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n cynnig cyngor ac arweiniad ar bob gwasanaeth sydd ar gael i rai 0-25 oed. Mae'n siop un stop sy'n cynnig gwybodaeth ar ddarpariaeth gofal plant lleol, clybiau plant a gweithgareddau hamdden a chwaraeon.

Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol ac yn ddiduedd gyda staff cyfeillgar a pharod i gynorthwyo. Gellir cysylltu â'r gwasanaeth drwy:

Canolfan Plant Integredig Calon y Cymoedd,
Stryd Fawr, Blaenau, NP13 3BN
**Ffôn:** 08000 32 33 39
**E-bost:** fis@blaenau-gwent.gov.uk
**Gwefan:** https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/health-wellbeing-social-care/support-for-children-families/family-information-service/

Gall fod help ychwanegol gyda'r costau ar gael i gyflogeion sy'n talu am ofal plant. Dyma elfen gofal plant y credyd treth gwaith. Mae help gyda hyd at 70% o gostau gofal plant, sef 70c am bob £1 a gaiff eu gwario ar ofal plant cofrestredig, yn bosibl.

I gael pecyn hawlio, cysylltwch â'r llinell gymorth ar 0845 300 3900 neu www.hmrc.gov.uk i lawrlwytho pecyn.

**FFURFLEN AL1**

# Cais am Absenoldeb Mabwysiadu/Trefniant Geni Babi drwy Fenthyg Croth

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**DYLID LLENWI'R FFURFLEN HON A'I DYCHWELYD I HRpayroll@blaenau-gwent.gov.uk**

## ADRAN 1 – MANYLION PERSONOL

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw Llawn: | | | |
| Cyfeiriad Cartref: | | | |
| Rhif Ffôn: | Cartref: | | Gwaith: |
| Swydd: | | | |
| Man Gwaith: | | | |
| Rhif Staff: | | | |
| Rhif Yswiriant Gwladol: | | | |

## ADRAN 2 - DATGANIAD

Ar ôl darllen canllawiau'r Cyngor ar Absenoldeb Mabwysiadu/Trefniant Geni Babi drwy Fenthyg Croth, rwyf drwy hyn yn eich hysbysu fy mod fel mabwysiadwr/rhiant arfaethedig y plentyn yn dymuno cymryd absenoldeb mabwysiadu ac yn dewis derbyn tâl/absenoldeb mabwysiadu. Rwy'n cadarnhau nad oes neb arall yn hawlio absenoldeb mabwysiadu/trefniant benthyg croth yng nghyswllt y mabwysiadu/trefniant benthyg croth yma. Mae manylion isod ynghylch fy nghais am absenoldeb.

Dyddiad Lleoli Plentyn:

Diwrnod y bydd yr Absenoldeb Mabwysiadu/Trefniant Benthyg Croth yn dechrau:

Rwy'n bwriadu dychwelyd i'r gwaith ar ddiwedd fy Nghyfnod Absenoldeb Mabwysiadu/Trefniant Benthyg Croth? (*am gyfnod o 3 mis o leiaf) ☐ Ydw ☐ Na

Os yn gymwys am y 12 wythnos o hanner tâl galwedigaethol pa opsiwn talu sydd orau gennych? (ticiwch fel sy'n briodol)

☐ 12 wythnos mewn taliadau cyfartal ☐ 33 wythnos mewn taliadau cyfartal

☐ 20 wythnos mewn taliadau cyfartal ☐ Cyfandaliad ar ddiwedd eich Absenoldeb Mabwysiadu

Faint o wythnosau o Absenoldeb Mabwysiadu/Trefniant Geni Babi drwy Fenthyg Croth ydych chi'n bwriadu ei gymryd? ☐ (Uchafswm 52)

Os ydych yn cymryd absenoldeb heb dâl ar gyfer Mabwysiadu/Trefniant Benthyg Croth, ydych chi eisiau ad-dalu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol ar yr absenoldeb heb dâl? (LGPS yn unig), a ddidynnir ar 1/3 cyflogai, 2/3 cyflogwr ☐ Ydw ☐ Na

*Caiff hyn ei ddidynnu ar 1/3 cyflogai a 2/3 cyflogwr.*

Llofnod: Dyddiad:

**RHAID CYFLWYNO TYSTYSGRIF PARU/TYSTIOLAETH O DREFNIANT BENTHYG CROTH I'R ADRAN DATBLYGU SEFYDLIADOL GYDA'R FFURFLEN HON**

## ADRAN DATBLYGU SEFYDLIADOL YN UNIG

Gwirio manylion a dyddiad cychwyn: Dyddiad Cychwyn ☐ Dyddiad Dychwelyd ☐

☐ Hysbysu Adnoddau ☐ Dodi yn y Gofrestr

☐ Llythyr i Gyflogeion (28 diwrnod) ☐ Ffeilio yn y Ffeil Bersonol

**FFURFLEN AL2**

# Cais i ddychwelyd i'r gwaith

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**DYLAI'R FFURFLEN HON GAEL EI LLENWI A'I DYCHWELYD I HRpayroll@blaenau-gwent.gov.uk GYDAG O LEIAF 8 WYTHNOS O HYSBYSIAD O'R BWRIAD I DDYCHWELYD I'R GWAITH**

## ADRAN 1 – MANYLION PERSONOL

Enw Llawn:

Cyfeiriad Cartref:

Rhif Ffôn: Cartref: Gwaith:

Swydd:

Man Gwaith:

Rhif Staff:

Rhif Yswiriant Gwladol:

## ADRAN 2 – DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau fy mod yn dymuno dychwelyd i'r gwaith yn gynharach na diwedd fy Absenoldeb Mabwysiadu/Geni Plentyn drwy Drefniant Benthyg Croth ar y dyddiad a nodir isod

Llofnod: Dyddiad:

## ADRAN DATBLYGU SEFYDLIADOL YN UNIG

Gwirio manylion a dyddiad dechrau: Dyddiad Dychwelyd Dodi yn y Gofrestr

☐ Hysbysu Adnoddau

☐ Llythyr i Gyflogeion (28 diwrnod))

☐ Diwedd Secondiad/Llanw Dros Dro

☐ Dodi yn y Gofrestr

☐ Ffeilio yn y Ffeil Bersonol

**FFURFLEN AL3**

# Awdurdodiad am Dalu am **Dyddiau Cadw mewn Cysylltiad**

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**DYLAI'R FFURFLEN HON GAEL EI LLENWI A'I DYCHWELYD I HRpayroll@blaenau-gwent.gov.uk**

## ADRAN 1 – MANYLION PERSONOL

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw Llawn: | | | |
| Cyfeiriad Cartref: | | | |
| Rhif Ffôn: | Cartref: | | Gwaith: |
| Swydd: | | | |
| Man Gwaith: | | | |
| Rhif Staff: | | | |
| Rhif Yswiriant Gwladol: | | | |

## ADRAN 2 - DATGANIAD

Yn unol gyda'r polisi Mabwysiadu/Geni Plentyn drwy Drefniant Benthyg Croth, rwy'n dymuno eich hysbysu i mi fynychu'r gwaith ar y dyddiad(au) isod:

Rheswm dros y Diwrnod(au) Cadw mewn Cysylltiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod y Cyflogai: | | Dyddiad: | |
| Llofnod y Rheolwr: | | Dyddiad: | |

## ADRAN DATBLYGU SEFYDLIADOL YN UNIG

**GWIRIO MANYLION A DYDDIAD DECHRAU**

- ☐ Hysbysu Adnoddau
- ☐ Llythyr i'r Cyflogai (28 diwrnod)
- ☐ Dodi yn y Gofrestr
- ☐ Ffeilio yn y Ffeil Bersonol